# Grŵp Trawsbleidiol Senedd Cymru ar Nyrsio a Bydwreigiaeth

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Hydref 2021**

Lleoliad y Cyfarfod: Tŷ Hywel, y Senedd

Dyddiad y cyfarfod: 20 Hydref 2021

| | |
|---|---|
| Amser y cyfarfod: 12:00 – 13:00Yn bresennol | Jenny Rathbone AS (Cadeirydd)<br>Rhun ap Iorwerth AS<br>Peter Fox AS<br>Ryland Doyle, Swyddfa Mike Hedges AS<br>Charlotte Knight, Swyddfa Jayne Bryant AS<br>Vikki Evans, Swyddfa Jeremy Miles AS<br>Gwyneth Bird, Swyddfa Russell George AS<br>Richard Jones, Cadeirydd Bwrdd Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru (RCN Cymru)<br>Helen Whyley, Cyfarwyddwr RCN Cymru<br>Diane Powles, Cyfarwyddwr Cyswllt (Ymarfer Proffesiynol)<br>Lisa Turnbull, Rheolwr Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus<br>Michelle Moseley, Cynghorydd Addysg a Dysgu Gydol Oes<br>Sarah Williams, Swyddog Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus<br>Aysima Harper, Cynorthwyydd Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus<br>Nick Unwin, Hyfforddai Graddedig (Ymgyrchoedd)<br>Belinda Cook, Hwylusydd Datblygu Ymarfer mewn Uned Newyddenedigol<br>Helen Rogers, Cyfarwyddwr – Coleg Brenhinol y Bydwragedd<br>Sarah James, Cydweithrediad Iechyd GIG Cymru<br>Clare Payne, Uwch Nyrs, Gwasanaethau Newyddenedigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Claire Richards, Uned Gofal Arbennig Babanod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan<br>Jessica Hughes, Mamolaeth, Llandrindod – Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br>Rachel Nowell, Prifysgol Caerdydd<br>Claire Goode Payne, Gwasanaethau Newyddenedigol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Ymddiheuriadau | Peredur Owen Griffiths AS<br>Delyth Jewell AS<br>Llyr Gruffydd AS |

## Eitem 1:

## Croeso gan Jenny Rathbone AS

Croesawodd Jenny Rathbone AS bawb i gyfarfod cyntaf y Grŵp Trawsbleidiol ar Nyrsio a Bydwreigiaeth yn y Chweched Senedd. Diben y Grŵp yw darparu gwybodaeth i Aelodau o'r Senedd am faterion cyfoes ym maes Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Mae cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd y llynedd ar gael ar wefan y Senedd, ynghyd â'r Adroddiad Blynyddol a'r Datganiadau Ariannol.

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid. Roedd rhai Aelodau yn bresennol yn yr ystafell, ac ymunodd eraill drwy gyfrwng MS Teams.

## Eitem 2:

## Ethol Cadeirydd ac Ysgrifennydd – Cadeiriwyd yr eitem hon gan Richard Jones, Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru

Cafodd Jenny Rathbone AS eu henwebu fel Cadeirydd newydd y Grŵp Trawsbleidiol gan Rhun Ap Iorwerth AS.

Er bod Russell George AS wedi anfon ei ymddiheuriadau ar gyfer y cyfarfod, roedd eisoes wedi mynegi'r ffaith ei fod yn cefnogi enwebiad Jenny Rathbone AS fel Cadeirydd, a'r ffaith ei fod wedi llofnodi'r papurau cofrestru ar gyfer y grŵp fel un o'r Aelodau sylfaenol.

Gan fod ei henwebiad wedi cael ei dderbyn yn unfrydol gan yr Aelodau o'r Senedd a oedd yn bresennol, cafodd Jenny Rathbone ei hethol yn briodol fel Cadeirydd.

Enwebwyd Helen Whyley, Cyfarwyddwr Coleg Nyrsio Brenhinol Cymru, fel ysgrifennydd y grŵp, a chafodd ei hethol yn briodol.

**Cam gweithredu:** RCN Cymru a swyddfa Jenny Rathbone i sicrhau bod y dogfennau cofrestru yn cael eu cyflwyno.

## Eitem 3:

## Siaradwyr gwadd:

Roedd pwnc y cyfarfod hwn, sef Bydwreigiaeth a Nyrsio Newyddenedigol, wedi cael ei gytuno yn flaenorol.

Croesawodd Jenny Rathbone AS y rhanddeiliaid a ganlyn, gan ofyn iddynt roi sylwadau agoriadol ar gyfer y drafodaeth: Michelle Moseley, Cynghorydd Addysg a Dysgu Gydol Oes RCN Cymru; a Belinda Cook, Hwylusydd Datblygu Ymarfer mewn Uned Newyddenedigol.

Fel atodiad i'r cofnodion, darperir papur briffio sy'n seiliedig ar y sylwadau agoriadol hyn a'r drafodaeth ddilynol.

Trafododd aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol bynciau amrywiol yn ymwneud â Bydwreigiaeth a Nyrsio Newyddenedigol, gan gynnwys:

- Effaith COVID-19
- Yr angen am gyfleoedd gyrfa ym maes Bydwreigiaeth a Nyrsio Newyddenedigol
- Pwysigrwydd cael arweinydd tîm â statws uwchrifol, i ategu'r staff sy'n gofalu am y babanod
- Cynyddu'r cymorth a'r cyfleoedd datblygu sydd ar gael
- Yr angen am ganran ofynnol o staff cofrestredig ar gyfer gofal dwys, gofal dibyniaeth uchel a gofal arbennig
- Gwybodaeth, profiad a hyfforddiant digonol i gynnig gofal diogel ac effeithiol i fabanod a'u teuluoedd

- Gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) ar draws GIG Cymru
- Heriau yn ymwneud â'r gweithlu, gan gynnwys cadw staff a chyfleoedd dilyniant
- Nifer y gwelyau sydd ar gael mewn Unedau Newyddenedigol
- Ariannu
- Mynegodd aelodau'r grŵp ddiddordeb mewn deall mwy am wasanaethau newyddenedigol yng Ngogledd Cymru, a chytunodd staff RCN Cymru i sicrhau bod y wybodaeth honno'n cael ei darparu yn y papur briffio.

### Eitem 4:

### Diolchiadau gan Richard Jones, Cadeirydd Bwrdd RCN Cymru

Diolchodd Richard Jones i'r Aelodau am roi o'u hamser i fod yn bresennol, a diolchodd i Jenny Rathbone am gymryd yr awenau fel Cadeirydd newydd y Grŵp Trawsbleidiol.

Mae'r RCN yn parhau i werthfawrogi'r grŵp hwn yn fawr, gan ei fod yn rhoi cyfle i'r sefydliad drafod materion nyrsio gydag Aelodau o'r Senedd.

### Eitem 5:

### Sylwadau i gloi gan Jenny Rathbone AS

Daeth Jenny Rathbone AS â'r drafodaeth i ben, gan ddiolch yn ffurfiol i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau i'r cyfarfod.

Pwysleisiodd Jenny Rathbone y byddai aelodau'r grŵp a oedd yn Aelodau o'r Senedd yn croesawu'n fawr y deunydd briffio ar y materion hyn at ddibenion llywio eu gwaith. Yn ogystal, awgrymodd rôl Ymwelwyr Iechyd fel y pwnc i'w drafod yng nghyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol yn y gwanwyn. Cytunodd y grŵp ar hyn.

Daeth y cyfarfod i ben am 13:00.

Cynhaliwyd y cyfarfod ar ffurf hybrid, gyda rhai pobl yn bresennol yn yr ystafell ac eraill yn ymuno ar MS Teams.

20 Hydref 2021

Ysgrifenyddiaeth: Aysima Harper, Cynorthwyydd Polisi, Materion Seneddol a Materion Cyhoeddus